



Cofnodion y Cyngor

Cyfarfod 181

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Gwener 3 Gorffennaf 2020

Lleoliad: Cyfarfod drwy Sŵm

Presennol:
(drwy Sŵm) Phil George Cadeirydd (PG), Andrew Miller (AM), Lhosa Daly (LD), Gwennan Mair (GM), Devinda De Silva (DDS), Marian Wyn Jones (MWJ), Mike Griffiths (MG), Kate Eden (KE), Tudur Hallam (TH), Sarah Younan (SY), Alison Mears Esswood (AME), Dafydd Rhys (DRh), Andy Eagle (AE) a Victoria Provis (VP).

Presennol:
(drwy Sŵm) Nick Capaldi (NC), Diane Hebb (DH), Rebecca Nelson (RN), Louise Wright (LW), Siôn Brynach (SB) a Katy Brown (cofnodion).

Ymddiheuriadau: Siân Tomos (ST) ac Iwan Bala (IB)

Arsylwi:
(drwy Sŵm) Gary Williams (GW) Llywodraeth Cymru

Cyfieithydd Lowri Gwyn (LG)

Statws y papur: I'w ryddhau i'r cyhoedd.

Eitem	Gweithredu
<p>1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod Cyngor Celfyddydau Cymru drwy Sŵm.</p> <p>Nododd NC fod ST yn sâl a'i bod yn siomedig i beidio â dod.</p> <p><u>Cyfarwyddwr Gweithrediadau</u> Roedd PG yn falch o nodi bod Richard Nicholls, sydd ar hyn o bryd yn Gyfarwyddwr Datblygu Amgueddfa Cymru, wedi'i benodi i swydd Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cyngor y Celfyddydau ac y bydd yn ymuno â'r Uwch Dîm Arwain ym Medi.</p>	

Eitem	Gweithredu
<p><u>Cyfarfodydd y Cadeirydd</u> Siodd PG am y cyfarfodydd diweddar yr oedd wedi'u mynychu gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth Nesaf? • Creu Cymru • Cyfweliad â Fearghus O' Conchuir am y Celfyddydau ac Iechyd ar gyfer sianel WAI ar PYST 	
<p>2. Datgan Buddiannau Gofynnwyd am gofnodi'r Datganiadau o Fuddiant (mewn atodiad i'r cofnodion hyn).</p> <p>Gofynnodd AM am ychwanegu "Beth Nesaf?" Prydain at ei ddatganiad.</p>	
<p>3. Cofnodion y cyfarfod 2 Mehefin 2020 Cymeradwywyd y cofnodion yn rhai cywir.</p>	
<p>4. Materion sy'n codi Roedd yr holl faterion a oedd yn ddyledus wedi'u cyflawni.</p>	
<p>5. Gyrru ein hagenda gydraddoldeb yn ei blaen Cofnodion y Grŵp Monitro Cydraddoldeb ar 17 Mehefin 2020 Siodd AM am brif bwyntiau'r cyfarfod.</p> <p>Roedd y ddau aelod annibynnol newydd, Lara Ratnaraja a Shereen Williams, wedi mynychu eu cyfarfod cyntaf.</p> <p>Nodwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd ymdeimlad o frys i amrywiaethu ein gweithlu yn fewnol ac yn allanol • Rhaid rhoi rhagor o arian i'r rhai â nodweddion gwarchoddedig drwy ein rhaglenni Loteri Genedlaethol • Roedd y pwyllgor yn awyddus i wybod beth y gellir ei ddysgu o'n rheolaeth o'r cronfeydd ymateb brys diweddar • Trafodwyd yr ymgyrchoedd Ni Chawn ein Dileu ac Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys, gan ofyn 'eleni beth fydd raid inni ei wneud, ei newid ac ymrwymo iddo?' 	

Eitem	Gweithredu
<p>Nodwyd cofnodion y pwyllgor.</p>	
<p>5.2 Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyflwynodd DH yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol am 2019/20. Roedd yr adroddiad yn ffrwyth dadansoddiad manwl o'n data blynyddol a'n rhaglenni.</p> <p>Trafodwyd yr adroddiad yng nghyd-destun y coronafeirws, Ni Chawn ein Dileu ac Mae Bywyd Pobl Dduon o Bwys. Pwysleisiwyd y meysydd lle nad oedd digon o gynnydd o ran cyrraedd y targedau yr oedd wedi'u gosod.</p> <p>Cydnabuwyd rhai meysydd llwyddiannus:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Camau Creadigol sy'n parhau i gefnogi datblygiad cwmnïau dan arweiniad pobl dduon, Asiaidd, anabl a lleiafrifol ethnig • Noson Allan sydd wedi cyrraedd pobl na fyddem fel arfer wedi ymgysylltu â nhw • ein gwefan a'i hygyrchedd sydd wedi gwella'n sylweddol <p>Y meysydd allweddol sy'n weddill yw amrywiaethu'r gweithlu a'r byrddau, gan gynnwys Cyngor y Celfyddydau ei hun, ac ehangu mynediad at arian y Cyngor. Nid yw rhaglenni'r Loteri Genedlaethol yn cyrraedd yr artistiaid a'r sefydliadau celfyddydol amrywiol sydd dan sylw yn ein cynllun corfforaethol, "Er Budd Pawb".</p> <p>Gofynnwyd tri chwestiwn (y bydd yn destun trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod):</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Beth sydd angen inni ei wneud yn awr? 2. Beth sydd angen inni ei wneud/newid/ymrwymo iddo eleni? 3. Beth yw'r camau allweddol y mae angen inni eu newid yn y cynllun cydraddoldeb strategol yn y dyfodol? <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	
<p>6. Creu dyfodol gwahanol Nododd NC siom ST nad oedd hi yno i gyflwyno'r eitem.</p> <p>Esboniodd fod ST yn arwain gweithgor mewnol o staff a oedd yn cynnal ymarfer i edrych ar y gorwel.</p>	

Eitem	Gweithredu
<p>Roedd hyn yn cynnwys edrych ar ble mae Cyngor y Celfyddydau yn awr, a beth allai'r sbardunau fod ar gyfer gwaith y Cyngor mewn sefyllfa ar ôl y pandemig.</p> <p>Roedd y canolbwyntio ar anghenion brys yn ei gwneud yn anodd gweld y tu hwnt i'r presennol. Ond honiad ST oedd mai sefydliadau llwyddiannus y dyfodol fyddai'r rhai a oedd wedi ymateb yn gadarnhaol i argyfwng y coronafeirws a'i ddefnyddio fel cyfle i ailwerthuso eu ffyrdd o weithio.</p> <p>Trafodid yn aml yr angen i berfformio'n wahanol wrth gyflawni blaenoriaethau. Ond oni newidiwn ein hymddygiad yn sylweddol, mae perygl y byddwn yn parhau i'w chael yn anodd cyrraedd targedau allweddol.</p> <p>Mae'r un mor bwysig nad yw sefydliadau allweddol yn gweld yr argyfwng presennol yn fater o oroesi yn unig ac yn rhywbeth i'w ddioddef. Roedd y 'newydd normal' yn syniad braidd yn niwlog, a byddai llawer o sefydliadau celfyddydol i bob pwrpas yn dechrau o'r dechrau i ddatblygu rhaglenni gwaith a fyddai'n ddiddorol i gynulleidfaeodd.</p> <p>Rhaid i Gyngor y Celfyddydau drafod gyda'r sector yr her o ran cynllunio a gweithio'n wahanol.</p>	
<p>7. Y coronafeirws – cynllunio ar gyfer y cam nesaf Cyflwynodd NC yr adroddiad.</p> <p>Mae cam cyntaf strategaeth y coronafeirws wedi'i gyflawni. Talwyd chwarter 1 o arian blynyddol y Portffolio ac roedd yr ail chwarter yn ddyledus y mis yma.</p> <p>Mae'r Gronfa Wytwnch i'r Celfyddydau wedi talu £909,000 o gymorth brys i unigolion ac ychydig dros £3 miliwn i sefydliadau. Mae'r rhaglen derfynol ar gyfer unigolion ar hyn o bryd yn asesu ceisiadau am ychydig dros £2 miliwn.</p> <p>Yn ystod y cyfnod anodd yma, mae swyddogion wedi ceisio creu ymdeimlad o sefydlogrwydd ar draws y sector. Roedd hyn yn heriol. Mae'r arian a gynigiwyd hyd yma wedi helpu, ond byrhoedlog fydd y seibiant wrth i ymbellhau cymdeithasol barhau i rwystro aildechrau gweithgarwch cyhoeddus.</p>	

Eitem	Gweithredu
<p>Mae lleihau cymorth y Cynllun Cadw Swyddi o Awst ymlaen a'r ffaith ei fod yn dod i ben yn llwyr ym mis Hydref yn golygu y bydd llawer o sefydliadau heb ragor o arian gan y Llywodraeth. Felly bydd goroesi'n dibynnu ar gael cymorth ariannol y tu hwnt i unrhyw beth y gallai Cyngor y Celfyddydau ei ddarparu. Roedd disgwyl i Lywodraeth Prydain gyhoeddi rhywbeth am hyn.</p> <p>Penderfynodd y Cyngor:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cymeradwyo parhau i atal amodau ariannu ar gyfer y Portffolio 2. Nodi y byddwn yn dychwelyd at y drafodaeth am Adolygiad Buddsoddi 2020 ym Medi 3. Cymeradwyo cyllidebau diwygiedig ein cronfeydd Strategol a Loteri Genedlaethol ar gyfer 2020/21, fel y nodir yn Atodiadau 1 a 2 	
<p>9. Trafodaeth y Cyngor Rhannwyd y Cyngor yn grwpiau trafod i ystyried y tri chwestiwn a amlygwyd yn gynharach.</p> <p>Rhoddodd pob grŵp adborth.</p> <p><u>Grŵp 1</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr angen am weithredu clir a brys • Dylai'r Cyngor gyhoeddi datganiad o fwriad ar unwaith • Angen cydnabod methiant y Cyngor i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau ac ymrwymo i wneud yn well • Sicrhau disgrifio a hyrwyddo arian y Loteri Genedlaethol fel arian hygyrch i bawb • Edrych ar yr hyn a ddysgwyd o'r profiad o reoli cronfa ymateb brys • Recriwtio Asiant er Newid gyda mandad i weithredu ar lefel uwch yn y Cyngor i ysgogi newid • Gwella statws y Grŵp Monitro Cydraddoldeb i fynd yn Bwyllgor i'r Cyngor • Creu ymdeimlad o ymgyrch a thynnu'r Portffolio i mewn • Ail-lunio'r ddadl ynghylch y Gymraeg ac amrywiaeth • Sicrhau bod materion cydraddoldeb yn ymddangos fel un o'r meysydd adrodd yn ein Hadroddiad Radar am y Portffolio 	

Eitem	Gweithredu
<p><u>Grŵp 2</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar unwaith i lunio datganiad sy'n ymdrin â datblygiadau diweddar • Cadarnhau ymrwymiad i'r cynllun corfforaethol, ' Er Budd Pawb' • Oherwydd bod y Gynhadledd yn cael ei chanslo, ystyriwch ddull gwahanol yn seiliedig ar weminarau • Asiant er Newid • Cefnogi'r gwaith o ailagor rhaglenni'r Loteri Genedlaethol • Mynegi'n glir i'r Portffolio yr angen am dargedau a chamau gweithredu clir • Siarad â'r etholaeth ehangach – defnyddiwch lygaid newydd i weld a chlustiau newydd i wrando <p><u>Grŵp 3</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cydnabod yr angen am olwg eang ar bob maes cydraddoldeb • Peidiwch ag anghofio pwysigrwydd y Gymraeg • Darparu rhagor o ddata i'r Cyngor am y penderfyniadau grant • Hyfforddiant i staff a'r Cyngor • Canolbwyntio ar berfformiad y Portffolio – ystyried sancsiynau os oes diffyg cynnydd <p>Cytunodd PG y byddai'n cyhoeddi datganiad o fwriad ar ran y Cyngor (i'w ddrafftio gyda chymorth SY, AM, DDS)</p> <p>Hefyd, mae PG yn cymeradwyo creu Pwyllgor Cydraddoldeb newydd i'r Cyngor, i'w gymeradwyo yng nghyfarfod Medi o'r Cyngor (gydag adolygiad o strwythur y Cyngor/Pwyllgorau). Byddai cynigion yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo yn y Cyngor ym Medi.</p>	<p>PG</p> <p>NC/KB</p>
<p>10. Cymru yn Fenis</p> <p>Cyflwynodd LW bapur gan Bwyllgor Ymgynghorol Cymru yn Fenis. Wrth wneud hynny, diolchodd i IB, aelodau o'r pwyllgor a chydweithwyr.</p> <p>Rhoddodd LW ac EH gyflwyniad am ein gwaith rhyngwladol a Fenis. Bydd gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar les a'r 5 Ffordd o Weithio yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae'n foment dyngedfennol i brosiect Cymru yn Fenis. Ar ôl nifer o arddangosfeydd llwyddiannus ym Miennale Fenis, mae</p>	

digwyddiadau'r byd yn gofyn inni ailasesu ein perthynas â'r digwyddiad.

Oherwydd y pandemig gohiriwyd Biennale 2021 ac mae wedi codi cwestiynau pwysig am natur ein gwaith rhyngwladol yn gyffredinol. Mae'r materion yma wedi cael eu hadolygu a'u hailwerthuso gan bwyllgor ymgynghorol Cymru yn Fenis.

Penderfynodd y Cyngor:

1. **Cymeradwyo** datblygiad Cam 1 a 2
2. **Cymeradwyo** cyfathrebiadau Cymru yn Fenis fel rhan o'r ymrwymiad i agor ac ymestyn deialog ar bosibiliadau gweithio rhyngwladol
3. **Cymeradwyo** dyraniad cyllideb o £30,000 yn 2020/21. (Byddai buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu i dalu artistiaid a gweithwyr llawrydd i ddarparu ymyriadau creadigol, gweithgarwch ymgynghorol a chyfranogol)

Diolchodd PG i LW ac EH am yr adroddiad.

**11. Llywodraethu
Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 27 Mai 2020**

Rhoddodd KE drosolwg o gyfarfod mis Mai.

Canolbwyntiodd y pwyllgor ar 3 mater.

Cyfrifon Blynyddol

Cyflwynwyd set gynhwysfawr o gyfrifon i'r Pwyllgor. Bu oedi wrth archwilio'r cyfrifon oherwydd y pandemig. Trafodir y drafft terfynol ym mis Gorffennaf a'i lofnodi gan y Cyngor ym Medi.

Llongyfarchwyd RN a'r tîm.

Gweithdrefnau gwrthdwyll

Roedd y Pwyllgor wedi canmol Swyddogion am eu gwaith ar archwiliadau twyll.

Ymdrin â Chwynion

Hysbysodd KE y Cyngor am gŵyn a wnaed am agwedd ar raglen y Cydweithwyr Celfyddydol. Cytunwyd ar yr holl argymhellion a gyflwynwyd gan yr Adolygydd Cwynion Annibynnol.

	Bydd cwynion yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor. Caiff pob cwyn cam 2 ei hadrodd i'r Pwyllgor yn y dyfodol.	
12.	Unrhyw fater arall Trafododd y Cyngor les staff a gofynnodd am ddiolch i'r staff yn ystod y cyfnod anodd yma.	
	Dyddiad y cyfarfod nesaf: Gwener 4 Medi 2020 – Sŵm	

Cyfarfod y Cyngor
Ddydd Mawrth 3 Gorffennaf 2020

Crynodeb o'r camau gweithredu a'r penderfyniadau

Eitem		Gweithredu
9	Llunio datganiad cyhoeddus yn dilyn cyfarfod y Cyngor	PG
9	Adolygiad o strwythurau'r Cyngor/Pwyllgorau ym Medi i gynnwys creu Pwyllgor Cydraddoldeb newydd	PG